heddwch DIWEDDARIAD
Gaeaf 2009-10

Blwyddyn Newydd - Cyfleoedd Newydd

Gan edrych i'r dyfodol, gallai 2010 fod yn gefndeuddwr o safbwynt diarfogi niwclear. Cynhelir Cynhadledd Adolygu 5-mlynedd hollbwysig y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) yn yr haf, gyda gobeithion y ceir cam pendant ymlaen wedi eu cyffroi gan rethreg Obama, er y gwrthbwyswyd hynny gan y ffaith fod llywodraeth Prydain yn mynnu adnewyddu Trident. Ein gorchwyl ninnau yw newid polisi ein llywodraeth (gyfredol) a chredwn y bydd sawl cyfle eleni i wneud argraff.

Mae'r cerdyn post amgaeëdig wedi ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Tramor, y gweinidog sy'n gyfrifol am ein cynrychioli ar faterion CAY. Bydd anfon y cardiau post hyn yn uniongyrchol at yr Ysgrifennydd Tramor yn cyfleu'r neges glir ein bod am weld camau gwirionedd tuag at ddiarfogi niwclear yn cael eu cymryd yn y Gynhadledd. Pan fydd yn derbyn miloedd o'r cardiau post hyn, bydd yn rhaid iddo ef a'i adran gydnabod faint o alw sy'n bodoli ymhlith y cyhoedd am ddiarfogi. Mae rhagor o gardiau post ar gael, gweler isod.

Cynhyrchir rhifyn o Heddwch cyn etholiad San Steffan, y gellir ei ddefnyddio yn ystod cyfarfodydd etholiad i bwysleisio'r cwestiynau y mae CND am i ddarpar-ASau eu hateb. Bwriedwn argraffu copïau ychwanegol, felly, da chi, rhowch wybod i ni faint o gopïau ychwanegol y credwch y gellwch eu dosbarthu (gweler isod).

Yn union wedi etholiad San Steffan, byddwn yn annog y llywodraeth newydd i gyflawni oblygiadau Prydain o dan y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY) 'i fynd ati i negydu yn ddiffuant . . . i sicrhau diarfogi niwclear' a chyfrannu'n bositif yng Nghynhadledd Adolygu'r CAY. Mae argoelion gwirioneddol y gellir darbwyllo pwy bynnag a etholir i beidio ag adnewyddu Trident – hyd yn oed pa bai hynny am resymau economaidd yn hytrach nag am eu bod yn derbyn ein barn ni am ddatblygu, caffael, cynhyrchu, profi, meddiannu a bygwth defnyddio arfau llofruddio torfol.

Academi Heddwch Cymru

Newyddion da: o ganlyniad i'n hapêl at aelodau CND Cymru, casglwyd mwy na 1500 o lofnodion ar ein deiseb Academi Heddwch Cymru o fewn pedair wythnos. Mae'r ddeiseb hon wedi cael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol lle mae'n cael ei hystyried ar hyn o bryd. Roedd hwn yn ymateb gwych gan ein haelodaeth, cyfeillion a chefnogwyr, ac mae'n dangos y gall CND Cymru wneud argraff wirioneddol. **Diolch i bawb a arwyddodd ac a ddychwelodd y ddeiseb.**

Cyflwyno'r Ddeiseb ar risiau'r Senedd
Ch i'r dde: Stephen Thomas (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru), Mike German AC, Sue Essex, Jill Gough (CND Cymru)

'Y cwestiwn i bob un ohonom ei ystyried yw – a ydw i yn mynd i fod yn wirioneddol fyw ar yr adeg dyngedfennol hon mewn hanes, neu a ydw i'n mynd i fod yn sylwedydd?'
[Bruce Gagnon, Cydgysylltydd y Rhwydwaith Fyd-eang yn erbyn Arfau a Phuer Niwclear yn y Gofod]

Anfonwch ____ copi ychwanegol o rifyn 'etholiad' Heddwch, os g. yn dda
Anfonwch fanylion am warchae Aldermaston ataf, os gwelwch yn dda

Enw:_____

Cyfeiriad:_____

_____

_____Côd post:_____

Mae rhagor o gopïau o'r cerdyn post ar gael
t:020 7700 2393 neu e:notrident@cnduk.org

Aldermaston Gwarchae Mawr

15 Chwefror 2010

Mae Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, yn un o gannoedd y disgwylir y byddant yn SAA Aldermaston ym mis Chwefror. Er mwyn tynnu sylw at gynlluniau cyfredol y llywodraeth a'u gwrthwynebu, mae CND Cymru yn cefnogi gwarchae a fydd yn llwyr amgylchynu'r ffatri fomiau (SAA) yn Aldermaston ar y 15fed o Chwefror. (gweler www.blockawe.blogspot.com/ a blockawe@yahoo.co.uk)

Dydyn ni ddim eisiau arfau niwclear newydd, mae arnom angen diarfogi niwclear nawr, ac eto mae gwaith adeiladu isadeiledd ar gyfer cenhedlaeth newydd o arfau niwclear eisoes ar y gweill Aldermaston.
Does dim rhaid i chi gael eich restio – gallwch fod yn rhan o'r gwrthdystiad a/neu ddarparu cefnogaeth a chynhaliaeth i eraill.

Ein nod yw bod ag o leiaf hanner cant o bobl o Gymru yn blocedio'r 'Glwyd Adeiladu' tra bydd pobl eraill o bob rhan o Brydain yn rhwystro'r wyth clwyd arall.

Grwpiau (a manylion cysylltu) sy'n bwriadu mynd:
Abertawe - Brian Jones
t: 01792 830 330
e: swanseacnd@btinternet.com
Caerdydd - Ray Davies
02920 889 514
Bangor - Phil Steele/Linda Rogers
t: 01248 490 715
e: phil_steele@btinternet.com
Trefyclo - Angie Zelter
t: 01547 520 929
e: reforest@gn.apc.org
Aberystwyth - Lotte Reimer
t: 01970 610 185
e: lotte.reimer@btinternet.com
Arfon - Ben Gregory
t: 01286 882 134
e: benica@gn.apc.org

Mae'n bosib y bydd rhywfaint o arian ar gael i gynorthwyo grwpiau. Cysyllter â Brian Jones (gweler CND Abertawe) am fwy o wybodaeth.

Dyddiadau Dyddiadur

Cyfarchion y Tymor i holl aelodau CND Cymru, cydweithwyr, cyfeillion a chyd-ymgyrchwyr. Edrychwn ymlaen at weithio am flwyddyn newydd fwy heddychlon a mwy cyfiawn.

Ionawr 10, 7.30pm
Capel Ebeneser, Porthmadog: bydd cell Dwyryd a Glaslyn o Gymdeithas y Cymod yn trafod newid hinsawdd. Croeso i bawb. Manylion gan: Pryderi Llwyd Jones t: 01766 514 103

Ionawr 23, 1.30 - 4.30pm
Y Morlan, Aberystwyth
Cyfarfod nesaf Cynefin y Werin.
Manylion gan t: 01286 882 134
e: benica@gn.apc.org

Ionawr 30 (i'w gadarnhau) 10.30am - 4.30pm
Cynhadledd yn erbyn Puer Niwclear
Yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd
Trefnwydd gan Gynghrair Wrth-Niwclear De Cymru ac Awdurdodau Lleol Di-Niwclear Cymru. Siaradawyr Gwadd: Jane Davidson, Paul Flynn, Leanne Wood, Democrat Rhyddfrydol ac ALIDNC yn ogystal â CyDd, CND a CGNC – Hugh Richardson ar broblemau gwastraff ymbelydrol.
I gadarnau, cysyllter â t: 02920 830 029
e: tim@iforbach.demon.co.uk

AELODAETH

Os nad ydych yn aelod o CND Cymru, da chi, ystyriwch ymuno â ni; os ydych wedi derbyn y llythyr hwn a 'heddwch', ond am gael eich dileu o'r rhestr bost, a fyddech cystal â rhoi gwybod i'r ysgrifennydd aelodaeth. Yn aelod o CND Cymru eisoes? Yna, da chi, rhowch y ffurflen ymaelodi amgaeëdig i ffrind neu rywun y credwch yr hoffai ymuno â ni.
Ysgrifennydd Aelodaeth:
Michael Freeman, Llysblodau, 9 Primrose Hill, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
e: michael.freeman9@btinternet.com

Diolch o galon i bawb sy'n rhoi cyfraniad ychwanegol i'r ymgyrch wrth ymaelodi. Er nad ydym fel arfer yn sgrifennu at bob unigolyn a fu mor hael, a gaf fi eich sicrhau fod pob cyfraniad yn cael ei werthfawogi'n fawr.

CND Cymru ysgrifennydd cenedlaethol a golygydd 'heddwch':
Llysgwyn,
Glynarthen,
Llandysul
SA44 6PS
t: 01239 851188
e: heddwch@cndcymru.org